

Crynodeb Gwirio Ansawdd Meddygfeydd Llandaf a Phentyrch Dyddiad y gweithgarwch: 7 Mawrth 2022

Dyddiad cyhoeddi: 7 Ebrill 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Feddygfeydd Llandaf a Phentyrch fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Meddygfeydd Llandaf a Phentyrch yn rhan o wasanaethau meddyg teulu a ddarperir o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Caeodd adeilad Meddygfa Pentyrch ym mis Ebrill 2020 a chynhelir apwyntiadau bellach mewn Portakabin¹ newydd ar y safle.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal y GIG. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis ac aelod o staff sy'n feddyg teulu ar 7 Mawrth 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a'r prosesau sy'n galluogi cleifion i drefnu apwyntiadau.
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19? Beth yw map trywydd y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau o wasanaethau a ddarparwyd cyn COVID-19?

¹ Enw brand ar gyfer adeilad bach sydd wedi'i gynllunio i gael ei symud o le i le ac sy'n cael ei ddefnyddio fel swyddfa dros dro.

-
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?
 - Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaeth a phenderfyniadau 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' yn briodol ac yn sensitif?
 - Pa mor hawdd ydyw cael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gwasanaethau y tu allan i oriau gwaith ar hyn o bryd?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Yr asesiadau risg / archwiliadau amgylcheddol mwyaf diweddar

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Canfuom fod asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod polisïau a gweithdrefnau wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r galwadau ychwanegol sy'n deillio o bandemig COVID-19.

Clywsom fod amgylchedd y practis wedi cael ei asesu ar ddechrau pandemig COVID-19, ac y gwnaed y newidiadau canlynol:

- Codwyd arwyddion cadw pellter cymdeithasol
- Sticeri sy'n amlinellu cadw pellter priodol o ddau fetr
- Gosodwyd sgriniau persbecs yn y dderbynfya a'r ystafelloedd aros
- Arwyddion yn gofyn i'r holl gleifion wisgo masgiau wyneb priodol yn unol â chanllawiau COVID-19
- Gosodwyd system intercom gan fod y practis yn gweithredu 'polisi drws caeedig'

-
- Arwyddion i nodi'r nifer uchaf o bobl a ganiateir mewn un ystafell

Gwelsom fod asesiadau risg amrywiol wedi'u cynnal, gan gynnwys atal a rheoli heintiau, ac asesiadau risg iechyd a diogelwch staff. Mae'r rhain yn asesu'r risgiau personol o barhau i gyflawni eu rôl yn ystod y pandemig ac yn amlygu unrhyw addasiadau sydd eu hangen i arferion gwaith.

Dywedodd y staff wrthym fod arwyddion cadw pellter cymdeithasol yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r lleoliad a bod yr ystafell aros wedi'i threfnu i ganiatáu i gleifion aros gyda phellter cymdeithasol priodol rhyngdynt.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi aros ar agor trwy gydol pandemig COVID-19. Trefnodd y practis i gleifion dderbyn ymgynghoriadau dros y ffôn os oedd angen. Cafodd yr holl alwadau eu hateb gan staff y dderbynfa a'u brysbennu gan feddyg teulu. Roedd unrhyw gleifion yr oedd angen iddynt weld clinigydd wyneb yn wyneb yn dod i'r practis drwy apwyntiad a drefnwyd ymlaen llaw.

Mae'r practis yn gweithredu apwyntiadau rheolaidd y gellir eu trefnu ymlaen llaw. Os yw apwyntiad wyneb yn wyneb wedi'i drefnu i'r claf, dywedir wrtho am ffonio a chanslo ei apwyntiad neu ei newid i apwyntiad dros y ffôn os bydd yn datblygu symptomau COVID-19. Roedd sesiwn y bore yn y feddygfa yn cael ei defnyddio ar gyfer mynediad brys yr un diwrnod. Eglurodd rheolwr y practis fod staff y dderbynfa yn gofyn i'r holl gleifion a oes ganddynt arwyddion neu symptomau, neu'n aros am ganlyniad prawf PCR.² Os felly, cynigir ymgynghoriad dros y ffôn yn lle apwyntiad wyneb yn wyneb. Mae hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob man cyhoeddus a'r tu allan i bob ystafell glinigol.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad at apwyntiadau meddyg teulu mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Cyn COVID-19, gellid gwneud apwyntiadau hefyd drwy ddefnyddio'r gwasanaeth 'Fy lechyd Ar-lein'³ ond nid yw'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer ceisiadau am bresgripsiwn rheolaidd.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cynnal asesiad risg personol i asesu'r risgiau a wynebwr ganddynt wrth barhau i gyflawni eu rôl yn ystod y pandemig ac i dynnu sylw at

² Ystyr PCR yw *polymerase chain reaction*, sef adwaith cadwyn polymeras. Mae'n brawf i ganfod deunydd genetig o organeb benodol, megis feirws. Mae'r prawf yn canfod presenoldeb feirws os oes gennych chi'r feirws adeg y prawf.

³ Mae gwasanaeth Fy lechyd Ar-lein yn eich galluogi i drefnu apwyntiadau meddyg teulu a gofyn am bresgripsiynau rheolaidd ar-lein gan ddefnyddio eich ffôn symudol, eich llechen neu'ch cyfrifiadur.

unrhyw addasiadau y mae angen eu gwneud i'w harferion gwaith.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn darparu gwasanaethau i gleifion sy'n byw mewn cartrefi preswyl. Mae'r staff clinigol yn dilyn y gweithdrefnau yn y cartref preswyl wrth fynd i mewn i'r adeilad.

Cawsom wybod hefyd fod gweithdrefnau ar waith gan y practis ar gyfer unrhyw glinigwyr sy'n cynnal ymweliadau cartref. Mae clinigwyr yn gwisgo cyfarpar diogelu personol llawn, ynghyd â sgrybs glân, ac maent yn mynd â'u hoffer eu hunain, sy'n cael ei lanhau a'i ddiheintio'n ddiweddarach ar ôl dychwelyd i'r practis. Mae'r sgrybs a wisgwyd hefyd yn cael eu tynnu a'u golchi ar ôl dychwelyd i'r practis.

Dywedwyd wrthym na all y staff yn y practis siarad Cymraeg ond bod y wybodaeth a ddarperir i'r cleifion ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gwnaeth y staff yn y practis ein hysbysu, pe byddai angen, eu bod yn ymwybodol o LanguageLine⁴ a bod trafodaethau yn mynd rhagddynt ynghylch darparu hyfforddiant mewn Cymraeg sylfaenol i'r staff.

Cawsom wybod bod y practis wedi cael cyllid i adeiladu meddygfa newydd i ddarparu gwasanaethau meddygol cyffredinol i'r cleifion sy'n byw ym Mhentyrch a thrigolion datblygiad lleol newydd ar hyd Heol Llantrisant. Fodd bynnag, cawsom wybod hefyd fod anawsterau wedi bod o ran gweithredu'r cynlluniau wrth symud ymlaen ac nid oes unrhyw amserlenni wedi cael eu darparu ar gyfer hwn.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Copi o'r polisi glanhau
- Copi o amserlenni glanhau

⁴ LanguageLine yw asiantaeth gwasanaeth cyfieithu iaith y DU sy'n darparu ystod eang o wasanaethau asiantaeth dehongli, cyfieithu a lleoleiddio.

-
- Polisi atal a rheoli heintiau
 - Data am hyfforddiant staff ynghylch atal a rheoli heintiau

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod gan y practis bolisi atal a rheoli heintiau ar waith. Mae'r polisi wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r drefn ar gyfer rheoli COVID-19. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod amserlenni glanhau wedi'u cynyddu a bod mannau cyffwrdd uchel yn cael eu diheintio gan y staff bob dwy awr. Mae stociau cyfarpar diogelu personol digonol wedi'u cyrchu ac yn cael eu monitro'n rheolaidd. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant atal a rheoli heintiau perthnasol.

Dywedwyd wrthym hefyd fod yr holl staff yn y practis wedi cael hyfforddiant yn unol â'r canllawiau a dderbyniwyd gan y bwrdd iechyd ar y ffordd gywir o ddefnyddio cyfarpar diogelu personol, gan gynnwys gwisgo a diosg⁵ cyfarpar a chael gwared ar gyfarpar yn ddiogel ar ôl ei ddefnyddio.

Dywedwyd wrthym gan reolwr y practis y disgwylir i'r holl staff newid i wisgo'r sgrybs a ddarperir gan y practis, a bod y rhain yn cael eu tynnu ar ddiwedd y dydd a'u golchi.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill a sut mae'n rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Cynllun parhad busnes
- Cofnodion cyfarfodydd staff o'r tri mis blaenorol

⁵ Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd yn amlwg drwy gydol y gwiriad ansawdd bod y practis wedi cynllunio'n dda ac wedi gwneud gwelliannu i gynorthwyo staff wrth fynd i'r afael â'r heriau a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Gwelsom fod cynllun parhad busnes gan y practis yr oedd wedi cael ei ddiweddarau pan oedd angen. Roedd hyn yn helpu i sicrhau dilyniant yn narpariaeth y gwasanaeth a gofal diogel i gleifion yn ystod y pandemig.

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi'u rheoli'n dda yn ystod y pandemig. Roedd rheolwr y practis yn canmol staff y practis am y modd y maent wedi ymateb i anghenion y practis a'r cleifion ac wrth gefnogi ei gilydd. Ymunodd y practis â phractis arall i greu system 'gyfeillio'⁶ i gynorthwyo ei gilydd pe bai staffio'n dod yn broblem yn ystod pandemig COVID-19. Dywedwyd wrthym fod amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a gofal eilaidd wedi cynyddu yn ystod y pandemig, sydd wedi rhoi mwy o alw ar y practis.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd clwstwr⁷ rheolaidd yn cael eu cynnal yn rhithwir trwy Microsoft Teams.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm misol yn cael eu cynnal a gwelsom dystiolaeth bod cofnodion manwl yn cael eu cadw.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

⁶ Yr arfer o weithio neu deithio gydag o leiaf un unigolyn arall, yn enwedig wrth wneud rhywbeth a allai fod yn beryglus. Mae'r system gyfeillio yn weithdrefn lle mae dau unigolyn, y "cyfeillion", yn gweithredu gyda'i gilydd fel un uned fel eu bod yn gallu monitro a helpu ei gilydd.

⁷ Grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau'n lleol yw clwstwr. Caiff clystyrau eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol unigol GIG Cymru. Mae meddygon teulu yn y clystyrau yn chwarae rhan allweddol wrth gynorthwyo gwaith parhaus Rhwydwaith Ardal.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.